

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/169191/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Callander, David 2024. Colli Prydain, Colli'r Byd: 'Gwasgargerdd Fyrddin'. *Llên Cymru* 47 (1) , pp. 1-24. 10.16922/lc.47.1

Publishers page: <https://www.ingentaconnect.com/contentone/uwp/llen...>

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository:<https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/169191/>

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Callander, David 2024. Colli Prydain, Colli'r Byd: 'Gwasgargerdd Fyrddin'. Llên Cymru 46 Item availability restricted.

Publishers page:

Please note:

Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See <http://orca.cf.ac.uk/policies.html> for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.



Colli Prydain, Colli'r Byd: 'Gwasgargerdd Fyrddin'

Rhwng Mawrth 2022 a Chwefror 2025 mae tîm aml-sefydliad o Brifysgol Caerdydd, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, a Phrifysgol Abertawe yn ymgymryd â'r dasg fawr o olygu'r cerddi Cymraeg yn llais Myrddin sy'n goroesi mewn llawysgrifau cyn 1800.¹ Yn ogystal â chreu golygiadau o destunau modern cynnar nas cyhoeddwyd erioed o'r blaen, mae Prosiect Myrddin yn ailolygu y cerddi Myrddinaidd cynnar, sy'n cynnig cyfleon newydd ar gyfer eu dehongli ar sail golygiadau manwl. Er mwyn enghreifftio rhai o'r agweddau pwysicaf ar y corff hwn o farddoniaeth, canolbwyntiaf yma ar un gerdd o'r ddeuddegfed ganrif, sef 'Gwasgargerdd Fyrddin' ('Cerdd Wahanu Myrddin'). Ceisiaf ddarllen y gwaith hwn yn fanwl er mwyn amlygu fel y mae'r bardd yn chwarae ar eiriau a thopoi llenyddol mewn modd a all dynnu'n groes i ddisgwyliadau'r darllenwyr. Mae'r gerdd yn ymddangos fel petai'n tansilio'r syniad bod y mab darogan yn dod i gynnig gwardigaeth, Hefyd fe ddefnyddia ddehurwydd llenyddol i ladd ar un o brif noddfeydd llenyddiaeth Gymraeg, sef Ystrad Fflur. Mae'r testun felly yn dangos sut y mae'r farddoniaeth a gysylltir â Myrddin yn gallu cyfoethogi ein dealltwriaeth o *genres* llenyddiaeth Gymraeg, y traddodiad proffwydol farddonol, a chanfyddiad y Cymry ohonynt eu hunain a'u perthynas â'u hynys.

Nid yw'r 'Wasgargerdd' yn ddewis addawol fel man cychwyn gan na fu'r gerdd hon at ddant pawb. Dyma oedd barn yr ysgolhaig nodedig Egerton Phillimore (1856–1937):

The whole poem in its present form would seem to be little more than a collection of heterogeneous metrical prophecies, in which past events and present circumstances were described under the guise of things to come; but it is clear that the text is, in many places, both corrupt and defective. Possibly a few fragments of an older poem, the scene of which was laid in Cumbria (in Welsh "Y Gogledd") — the only land which has any claim to be regarded as the scene of Merlin's life — can be disentangled from the chaos.²

Felly, o adeiladu ar hyn, gallem weld 'Gwasgargerdd Fyrddin' fel un o blith nifer o broffwydoliaethau Cymraeg yn llais y proffwyd a'r dyn gwyllt Myrddin a honno'n broffwydoliaeth aneffeithiol braidd. Proffwyda ynghylch rhyfel a dinistr ond fe ddatgan hefyd 'Brython dygorpy' ('bydd y Brythoniaid yn gorchfygu', ll. 86).

Fel y noda Peredur Lynch:

Nid oedd *brud*, ar un ystyr, ond dull rhethregol amgen o drosglwyddo *brut*, ac roedd proffwydoliaeth yn hynny o beth yn rhan ddiwriad o fyth cenedlaethol eithriadol o hirhoedlog. Elfen ganolog yn y myth hwnnw oedd y gred a goleddai'r Cymry mai hwy oedd gwir berchnogion Ynys Brydain ac y ddi'r ynys yn ôl i'w meddiant yng nghyflawnder yr amser. Dyma fyth a oedd yn cael ei gynnal, ar y naill law, gan ymdeimlad o golled, ymdeimlad fod yr oes aur wedi hen fynd heibio, ac, ar y llaw arall, myth a oedd yn cael ei gynnal gan gred ddiysgog fod gwardigaeth ar ddyfod.³

Felly, o ddilyn y model traddodiadol, dywed y 'Wasgargerdd' wrthym y bydd y Brythoniaid yn ennill eto, er gwaethaf ambell awel groes. Erbyn diwedd y gerdd (ll. 131) cawn gyfeiriad at estroniaid neu baganiaid yn dod o dramor. Mewn rhai testunau eraill, gellir dehongli hyn yn rhan o gyfres bosibl sy'n arwain at ddyfodiad y mab darogan a ddaw â gwardigaeth.⁴ Gallem weld hyn yn arwydd eglur o obaith yn y gerdd: bydd y Brythoniaid yn adennill eu hynys.

Ond, o ystyried y gerdd ar ei hyd, ni chredaf fod hyn yn ddilys o gwbl. Wrth aildechrau astudio'r gwaith, hoffwn osod man cychwyn newydd trwy elwa ar theori lenyddol ganoloesol o Iwerddon. Mewn nifer o destunau Gwyddeleg a Lladin, nododd ysgolheigion Gwyddelig mai'r pethau pwysicaf i'w gwybod am waith llenyddol oedd amser a lleoliad ei gyfansoddi, ei awduraeth, a'r rheswm dros ei gyfansoddi. Gwelwn y fformwla hon mewn ystod eang o gyd-destunau dros gyfnod estynedig, megis mewn sylwebaeth Ladin ar yr *Aeneid*, yng nghopi Egerton 1782 o *Táin Bó Cuailgne*, yn *Aislinge Meic Con Glinne* ac yn rhagair Leabhar Breac i *Féilire Óengusso*.⁵ Mae nifer o ysgolheigion modern, gan gynnwys Simon Rodway, wedi gweld hyn yn ddull defnyddiol o ddechrau dadansoddi testunau Cymraeg Canol yn ogystal â thestunau Gwyddeleg.⁶ Mae'n ddull dehongli a oedd o bosibl yn gyfarwydd i'r bardd (er nad oes modd profi hynny) ac mae'n cynnig cyfle i ddechrau astudio'r gerdd fel cyfanwaith ar ei thelerau ei hun.

Dechreuwn gydag amser a lleoliad. Mae'n debyg i'r gerdd gael ei chyfansoddi rhwng 1164 ac 1191. Rhaid ei bod wedi ei llunio ar ôl sefydlu Abaty Ystrad Fflur yn 1164 ac, os cywir y dybiaeth i Gerallt Gymro aralleirio rhan ohoni yn Lladin yn ei *Itinerarium Kambriae*, dyma *terminus ad quem* yn 1191.⁷ Mae'r dyddiad hwn yn gyson â nodweddion ieithyddol y gerdd.⁸ O ran awduraeth, rhaid trin y gwaith fel cerdd ddiennw gan fardd o'r ddeuddegfed ganrif a ganai yn llais Myrddin. Er na wyddom enw'r bardd, rhaid eu bod yn gyfarwydd â Llandudoch o ystyried y canolbwynt cryf ar yr ymosodiadau hanesyddol ar Landudoch tua'i

diwedd (ll. 113–127). Gan nad yw Llandudoch yn amlwg mewn llenyddiaeth gynnar Gymraeg fel arall, mae'r ymdriniaeth â'r lle yn y gerdd hon yn awgrym amlwg bod y bardd wedi canu yn y cyffiniau.⁹ Dengys Gerallt Gymro ymwybyddiaeth bosibl o ran o'r gerdd wedi'r cyfan ac yntau wedi ymweld â'r abaty yn 1188.¹⁰ Mae *causa scribendi*, neu'r rheswm dros gyfansoddi, yn gwestiwn llawer mwy uchelgeisiol wrth gwrs, fel y nododd rhai o'r sylwebwyr Gwyddelig. Yn y darlleniad hwn, hoffwn gynnig nifer o bosibiliadau ar gyfer *causae scribendi* neu *causae legendi*, gan edrych ar yr hyn a allai fod wedi symblu unigolion i gopïo'r gerdd hon a'i darllen, a gwrando arni.

Dyma grynhoi, felly, brif fanylion y gerdd fel y saif, yn seiliedig ar olygiad newydd Ben Guy.¹¹ Fel y bydd yn amlwg o'r erthygl gyfan a'r nodiadau, mae arnom ddyled drom iddo am wneud y testun hwn yn hygyrch inni gyda'i waith golygu trylwyr. Mae'r gerdd 131 llinell o hyd yn defnyddio llais Myrddin i broffwydo ynghylch gwahanol frenhinoedd ac ymosodiadau.¹² Ar ôl i Fyrddin ei gyflwyno ei hun neu gael ei gyflwyno (ll. 1–9), proffwyda am frenhinoedd Normanaidd ac Angevin o dan amrywiol ffugenwau (ll. 10–30). Cawn ganddo ddelweddau o wae, crefydd ddiffygiol a rhyfeddodau (ll. 31–75) ac yna mae'n darogan yn fwy penodol am ryfeloedd ar lannau gwahanol afonydd yng Nghymru (ll. 76–90). Cwyna am fynachod Ystrad Fflur (ll. 91–103) cyn iddo weld brwydr mewn lle o'r enw Carrog (ll. 104–112), darogan dinistr i Landudoch (ll. 113–127) a gorffen trwy alaru ynghylch y sefyllfa (ll. 128–131).

Mae llawer o waith blaenorol, yn ymestyn yn ôl i'r Oesoedd Canol mewn traddodiad anrhydeddus, yn blaenoriaethu'r digwyddiadau hanesyddol a broffwydir mewn ymdriniaeth â cherddi proffwydol.¹³ Enghraifft o'r dull hanesyddol o ddehongli cerdd fel hon fyddai ceisio adnabod y brenhinoedd y proffwydir yn eu cylch. Felly fe ellir gweld y 'gwr gwrthryn' (ll. 10) a ddaw 'i ladd Lloegyr' (ll. 11) fel Gwilym Goncwerwr, y brenin cyntaf yn y grŵp o frenhinoedd Normanaidd. Amlycach eto fyddai'r cysylltiad rhwng 'coch Normandy' (ll. 18) a'i fab Gwilym Goch, ac felly hefyd rhai o'r brenhinoedd a nodir wedyn. Ond nid dyma bwyslais yr erthygl hon, a hynny am nad natur y gerdd yw enwi'r brenhinoedd fel petai'n gronici. Weithiau mae'n amlwg ddigon bod cyfeiriad ymhlyg at ryw frenin, ac fe saif 'Henri' (ll. 25) ar ei ben ei hun fel yr unig un o freninhoedd Lloegr a enwir. Ond yn aml mae'r cyfeiriadau'n amwys. Wrth ddarllen gyda'r brenhinoedd hyn mewn cof, fe gyfyd y perygl o flaenoriaethu digwyddiadau hanesyddol go iawn ar draul yr hyn a ddarllenwn yn y testun, sydd, fel arfer, yn ddigon aneglur, ac, yn bwysicach, ar draul geiriad ac ergyd benodol na fyddai rhestr foel o enwau brenhinoedd yn eu cyfleu. Haedda'r gerdd hon ei thrin yn

gyfanwaith llenyddol. Nid y digwyddiadau hanesyddol y proffwydir yn eu cylch yw'r unig agwedd o bwys arni. Mae'r gerdd yn amlwg yn rhan o draddodiad ehangach o destunau proffwydol sy'n darparu'r prif fframwaith (ond nid yr unig un) ar gyfer y dehongli yma.¹⁴ Eto i gyd, fel y nodais, fe gynnwys y gerdd hon hefyd elfennau sydd heb dderbyn cymaint o sylw wrth astudio proffwydoliaethau Cymraeg.

Colli Sofraniaeth dros Brydain

Sylfaen y traddodiad proffwydol Cymraeg yw'r syniad bod y Cymry wedi colli sofraniaeth dros Brydain a'r gobaith y byddai modd ei hadfer iddynt. Gall mai dyma yw elfen bwysicaf y gerdd hon hefyd, yn enwedig tua'i dechrau a'i diwedd, ond nid yw'n echblyg o'r cychwyn un. Dechreuau'r gerdd â datganiad 'Gwr a lefeyr yn y bedd' (ll. 1). Mae'n gwbl amwys: pwy yw'r siaradwr? A yw wedi marw neu ar farw? A yw'n ei gyflwyno ei hun neu a yw rhywun arall, megis Gwenddydd ei chwaer, yn ei gyflwyno? Cawn ragor o wybodaeth yn fuan wedyn wrth i Fyrddin ei enwi ei hun ddwywaith fel y siaradwr o dan sylw: 'Merddin by henw, ap Morŷryn' (ll. 6); 'Merddin by henw, Amheydduc' (ll. 9). Sylwer fel y mae'r gerdd yn enwi dau riant Myrddin. Nid yw'r gerdd yn darparu rhyw lawer o fanylion ar union sefyllfa Myrddin yma, heblaw'r ffaith ei fod 'yn y bedd'.

Mae statws Myrddin (sy'n ddrych i statws y Brythoniaid) wedi gweld newid trychinebus: gynt, meddai yn englynion dau a thri, câi yfed gwin gan ei arglwydd, ond (fe ymhlygir) nid mwyach. Gall cyfeiriad at 'eŷrdeyrn Gogledd' (ll. 3) awgrymu lleoliad yn yr Hen Ogledd lle y disgwyliem weld Myrddin. Mae'n bosibl y byddai darllenwyr neu wrandawyr cyfoes wedi deall digon o'r manylion hyn i'w cysylltu â chwedlau am Fyrddin lle â o'i gof ar ôl marwolaeth ei arglwydd, Gwenddolau, ym Mrwydr Arfderydd.¹⁵ Yn ddiweddarach, mae'n cyfarch Gwenddydd (ll. 98, 101) a Gwasawg (ll. 91)¹⁶ ac yn pwysleisio wrth Wenddydd ba mor oer ydyw: 'adoer yw by erdyrn' (ll. 101), sef yr unig gyfeiriad at ei wylltineb yn byw y tu hwnt i gymdeithas. Felly mae'n bosibl bod yma sefyllfa debyg i'r hyn a welwn yn llawnach yn 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd' a bod Myrddin yn proffwydo ac yntau ar farw yn y diffeithwch, ond bod 'Gwasgargerdd' wedi dewis ymhlygu'r gosodiad hwnnw'n bennaf yn hytrach na'i ddatgan yn echblyg.¹⁷ Nid yw hynny'n anghyffredin mewn cerdd gymnar Gymraeg, wrth gwrs, ond beth yw ei effaith yma? Mae'n bosibl bod cyfyngu a lleihau'r elfennau o hanes Myrddin yn yr Hen Ogledd yn y gerdd a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n cyd-fynd â mater Prydain a chwmp y Brythoniaid yn gadael iddi ganolbwyntio'n

rhwyddach ar ei phrif bwnc, sef sefyllfa enbydus Cymru a Phrydain dros y canrifoedd blaenorol (neu, o bersectif Myrddin, ddyfodol).

O ailedrych ar yr englyn cyntaf, fe welwn nad yw'n amherthnasol i'r pwnc hwn:

Gwr a lefeyr yn y bedd,
di-s-gweyt: kyn seith mlynedd,
march marw eórdeyrn Gogledd.

*Mae dyn yn llefaru yn y bedd,
mae'n datgan hyn: cyn saith mlynedd,
march marw fydd brenin euraid y Gogledd.*

(ll. 1–3)

Dyma gyferbyniad: try 'eórdeyrn Gogledd' yn 'march marw'. Fe ddefnyddir 'eurdeyrn gogled' i ddisgrifio Urien yn *Canu Taliesin* III (ll. 26) mewn cerdd sy'n moli gwychder a haelioni'r brenin hwn.¹⁸ Digwydd 'eurdeyrn' chwe gwaith yng ngherddi Beirdd y Tywysogion mewn cyd-destunau tebyg, sy'n brolio haelioni ac arwriaeth y gwrthrych.¹⁹ Geilw'r ymadrodd i gof ogoniant y Brythoniaid a'u hawl ar yr ynys gyfan yn ogystal â'r ddelwedd ddelfrydol o frenin hael yn gwobrwyo ei filwyr. Ond beth fydd hwn heblaw 'march marw'? Cyll urddas ei ddynoliaeth wrth golli ei rym a'i fywyd. Gall fod ystyr symbolaidd i 'march marw' wrth gwrs, ond prin ei fod yn llenwi'r darlennydd â hyder. Dyna gyferbyniad sy'n hollbwysig yn y gerdd hon: gogoniant y gorffennol a phesimistiaeth am y presennol a'r dyfodol. Parha'r syniad o golled yn y ddau englyn nesaf, wrth i Fyrddin ddatgan ei fod wedi yfed gwin gan frenin: yn y gorffennol (ll. 4, 7).

Daw'r canolbwynt ar golli sofraniaeth yn amlycach fyth yn y tri phennill canlynol, sydd fel petaent yn atseinio daearyddiaeth chwedl *Branwen* i broffwydo colled Prydain a chwymp y Cymry:²⁰

Pan ddel gwr gwrthryn y ar olwyn dŵ
i ladd Lloegr, llwybyr wehyn,
chwerw gwenwyn yn ammwyn Gwynŵryn.

*Pan ddaw dyn sy'n gwrthwynebu ar farch du ac iddo
bedrain wen i ladd pobl Lloegr, yn diffeithio'r
llwybr, chwerw fydd yr elyniaeth yn ymladd am y
Gwynfryn.*

Gwynŵryn eyssyddyn, erhy;
hyr nebed giwed Gymry!
Ni bydd diogelawr ynghellawr Ardudwy
ar a dalhwy Kymry
rrac ardderchawc, twrch toryf hy.

*Anedd Gwynfryn, bydd yn aros;
bydded i genedl Cymru alaru am amser maith!
Ni fydd yr hwn a fydd yn talu am Gymru
yn amddiffynnydd yng nghelloedd Ardudwy
yn erbyn un ardderchog, baedd llu dewr.*

(ll. 10–17)

Rhagwelir dyfodiad rhywun yn ll. 10. Fe allem ddehongli'r ffigwr hwn fel Gwilym Goncwerwr, o bosibl, ond o ran yr hyn a ddatgana'r gerdd, gwelwn mai dyma rywun sy'n dod i ladd Lloegr, ac mae ymladd yma dros y Gwynfryn. Y Gwynfryn, wrth gwrs, yw'r man lle y cleddir pen Bendigeidfran yn *Branwen*: 'cany doey ormes byth drwy uor y'r ynys honn, tra uei y penn yn y cud hwnnw.'²¹ Ond fe wyddom o'r chwedl fod y pen yn cael ei ddatguddio.²² Efallai mai dyma ergyd dechrau'r pennill nesaf: bydd y Gwynfryn ei hun yn aros, ond nid yw bellach yn amddiffyn y Cymry rhag gormes. Boed i'r Cymry alaru.

Yna mae'r gerdd yn defnyddio'r chwedl i'n symud yn syfrdan o gyflym o'r dwyrain i'r gorllewin, o'r Gwynfryn ymhell i mewn i Gymru: 'Ni bydd diogelawr ynghellawr Ardudwy'. Mae'n bosibl bod cyfeiriad yma at Robert o Ruddlan a oedd yn talu brenin Lloegr am yr hawl i arglwyddiaeth Gwynedd ac at ei elyn Gruffudd ap Cynan,²³ ond yr hyn a welwn yn glir iawn yn y testun yw diffyg diogelwch yn stordai Ardudwy, a hynny dair llinell ar ôl sôn am ymladd yn ardal Llundain. Dyma ddychryn y sawl sy'n gwrandao ar y broffwydoliaeth: ble bynnag y boch, ni fyddwch yn ddiogel, a hynny am fod y Cymry wedi colli coron Llundain.

Fel y nodir yn natganiad Peredur Lynch a ddyfynnais uchod ac yn astudiaeth bwysig Margaret Enid Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels*, yn aml fe ddisgwyliwn i broffwydoliaethau Cymraeg gyfuno pesimyddiaeth am y gorffennol â gobaith am y dyfodol. Nid yw cael hen broffwyd yn proffwydo sefyllfa druenus i'r Cymry, sy'n adlewyrchu eu statws am y tro, yn anarferol mewn darogan. Oni fyddai'r gynulleidfa'n gwybod bod gwaredwr ar ddod a bod y Brythoniaid yn mynd i godi eto a hawlio eu hynys gan alltudio'r Saeson? Mae proffwydoliaeth fawr Emrys yn *Historia Brittonum* yn gwbl glir: bydd y Cymry'n cael eu hynys yn ôl.²⁴ Fe adleisir hynny yn 'Armes Prydein Vawr' yng nghyd-destun gwleidyddiaeth y ddegfed ganrif a chan broffwydoliaethau diweddarach aneirif.²⁵ Oni wyddom fod y Brythoniaid yn mynd i godi eto a hawlio eu hynys gan alltudio'r Saeson?

Mewn cymhariaeth ag eglurder proffwydoliaeth *Historia Brittonum*, penbleth estynedig a gawn yn y darogan cyfatebol gan Fyrddin Emrys yn *Historia Regum Britanniae* Sieffre o Fynwy. Mae creu proffwydoliaeth fwy estynedig a mwy cymhleth ei symbolaeth yn galluogi Sieffre nid yn unig i ddrysus proffwydoliaeth y Cymry ond hefyd i gyflwyno elfennau newydd, gan gynnwys gweld y Normaniaid fel y rhai a fydd yn trechu'r Saeson yn hytrach na rhyw feibion darogan Brythonig.²⁶ Dyma'r 'populus [...] in ligno et ferreis tunicis' ('cenedl

yn gwisgo pren a thiwnigau haearn') a broffwyda Merlinus Ambrosius.²⁷ Fe ddigwydd hyn yn 'Gwasgargerdd Fyrddin' hefyd ond fe'i cyflwynir mewn ffordd wahanol yma.

Darllenwn yr englyn nesaf:

Pan ddy6o coch Normandy i holi Lloegyrwys, tra6l ddiffwys treth a fi, pob darogan dyderby: castell yn Aber Hodni. (ll. 18–21)	<i>Pan ddaw'r un coch o Normandi i hawlio²⁸ gwŷr Lloegr, bydd gwariant ofnadwy o dreth, bydd pob darogan yn digwydd: castell yn Aberhonddu.</i>
---	--

Mae rhywun wedi hawlio dynion Lloegr yma. Fe allwn feddwl mai'r brenin Gwilym Goch yw hwn. Er hymny, yr hyn sy'n bwysig yma yw'r ffordd y mae'r testun yn ei ddisgrifio. Fe'i diffinnir gan liw ('coch') a chan leoliad ('Normandy'). Nid Cymro mohono, sy'n gwneud ei gysylltiad â'r lliw coch yn arbennig o arwyddocaol. Yn ôl *Historia Brittonum* a thestunau yn ei thraddodiad, bydd draig goch y Brythoniaid yn drech na draig wen y Saeson ac yn ei gyrru o'r ynys. Dyma'r unig broffwydoliaeth ar gyfer Ynys Prydain yn ôl 'Armes Prydein': 'Arymes yr ynys hon namyn hyn ny byd.'²⁹ Ond eto nid Cymry sy'n goch fan hyn: mae rhywun arall wedi cipio eu symbol; eiddo rhywun arall yw eu buddugoliaeth. Fe welir pen draw hyn yn y datganiad yn llinell 20: 'pob darogan dyderby' ('bydd pob darogan yn digwydd'). Dyma hanes amgen dyfodol Prydain: daeth coch arall o dramor a threchu'r Saeson, ac ni ddaw gwared i'r Cymry. Gwireddir ffurf wydroëdig ar y darogan ac nid oes dyfodol arall. Yn sarhad ychwanegol ar obaith 'Armes Prydein', dyma ddatgan 'tra6l ddiffwys treth a fi' ('bydd gwariant ofnadwy o dreth'), fel bod pob gobaith o gael gwared ar y trethi a dial ar y Saeson amdanynt wedi diflannu, a chestyll y Normaniaid yn warant o wendid y Cymry.

Prin bod proffwydoliaeth Gymraeg yn bod sydd mor besimistaidd am y Cymry â 'Gwasgargerdd Fyrddin'. Yn wir, daeth y gerdd yn fwy pesimistaidd o sefydlu'r testun cyfan. Nododd John Bollard, '[l]ike much Welsh prophetic verse [...] this poem does end on a positive note, prophesying that the Welsh will overcome.'³⁰ Gwelodd Bollard hyn yn llinell 86: 'A chad a 6y ar Byrry a6on / A Brython dygorpy'. Daw'r fuddugoliaeth hon yn agos iawn at ddiwedd y testun yn y Llyfr Gwyn a'r Llyfr Coch ac fe allem fod wedi gweld arwyddocâd arbennig iddi, efallai, o ddilyn y testunau hymny. Eto, o wybod bod y copïau hymny'n anghyflawn a bod y testun yn parhau am 45 llinell arall, gwelwn mai un cyfeiriad yng

nghanol y testun yw hwn at y Brythoniaid yn ennill mewn brwydr leol benodol, yn hytrach na datganiad mwy cyffredinol am eu buddugoliaeth.

A throi'n ôl at y brenhinoedd proffwydedig tua dechrau'r testun, parha'r gerdd i broffwydo gwae gan ddefnyddio cymeriad geiriol 'pan ddy6o' (18, 22, 25, 28, 32) i greu cyfres drawiadol o ddyfodiadau peryglus ddireolaeth. Fe gysylltir pob dyfodiad â'r brenhinoedd estron yn cymryd rheolaeth o Brydain ac mae llinellau 10–30 yn ffurfio uned dymn yn thematig ac yn arddulliol. 'Y brith cadarn', ffugenw a ddefnyddiwyd ar gyfer Harri II, fydd 'pendevic Predain', yn hawlio eto ynys a addawyd i'r Cymry, fel Gwilym Goch a gyflwynwyd gan yr un ymadrodd 'pan ddy6o'.³¹ Yna daw Henri i derfyn Eryri: 'galwhawr gormes tra gwelgi' ('bydd yn cael ei alw'n ormes y tu hwnt i'r môr' (ll. 27)), sydd eto'n pwysleisio gormes ac ymosodiadau yng nghadarnleoedd y Cymry a'r tu hwnt iddynt.³² Yn yr englyn nesaf cawn 'y gwyn gwan': daw i hawlio Llundain (sylwer ar ailadrodd y gair 'holi' (18, 28) a'r symudiad rhwng Llundain (12, 14, 28) a Gwynedd (15, 25–6)) ond ni fydd yn cadw 'tyrnas Kaer Gain' (ll. 30).³³ Os 'Caer-gaint' yw 'Caer gain' yma, byddai modd dehongli hyn fel cyfeiriad at golli Prydain hefyd, o weld Prydain yn uned eglwysig o dan awdurdod Caer-gaint.³⁴ Cyfle i'r Cymry yn sgil cwmp brenin Lloegr? Nid felly yn y gerdd hon, lle nad oes awgrym yn y byd fod hwn yn ddatblygiad positif. Cawn yn yr englyn nesaf 'brenhin gwas: gwae a'i kryd' (ll. 33).

Ymddengys fod llygedyn o obaith yn llinellau 34–6, sydd fel petaent yn cynnig iachawdwriaeth:

Mab a bydd, mawr i 6rddas,
a oresgynn mil dinas
hoydyl egin brenhin gwas.
(ll. 34–6)

*Bydd mab mawr ei urddas
a fydd yn gorchfygu mil o ddinasoedd
ym mywyd impynnau'r brenin bachgen.*

Dyma fab urddasol, sy'n ymdebygu i Grist y mab, a'r mil dinas y mae'n eu goresgyn yn atsain o deyrnasiad Crist am fil o flynyddoedd.³⁵

Ond fe danseilir yr iachawdwriaeth ymddangosiadol hon yn syth yn y llinellau nesaf:

Kadarn wrth wan, gwlad ad6ot;
gwan wrth kadarn, gordyrot;
pennaeth, handes gwaeth o'e ddy6ot.
(ll. 37–9)

*Cryf yn erbyn gwan, gwlad adfyd;
gwan yn erbyn cryf, gelynion;
pennaeth, mae'n waeth oherwydd ei ddyfodiad.*

Gellir cymharu â hyn y cyfeiriad yn llinell 86 at y Brythoniaid yn emill ‘ar Byrry a 6on’: mae nifer o enghreifftiau unigol o ddigwyddiadau a all gael eu gweld yn bositif neu’n obeithiol ond fe foddant yn anobaith mwy cyffredinol y gerdd.

Try’r gerdd yn fwy moesol a mwy lleol o linell 40 ymlaen, gan nodi nifer o wahanol frwydrau ac ymosodiadau, yn enwedig yng Nghymru, a chyflwyno elfennau o ddychan cymdeithasol a ‘brithfyd’ y cyfnod cythryblus a ddarogenir. Cawn y cwbl annisgwyl ynghyd â’r hyn y gellid ei weld yn aml mewn cymdeithas, a hyn oll o bosibl yn arwydd o Ddydd y Farn. Ni wyddom pryd y daw ond fe wyddom ei fod ar ddyfod. Efallai ei fod wedi ein cyrraedd yn barod. Dychwel y canolbwynt i fater Prydain yn y pennill olaf. Ar ôl galaru am y dinistr yn Llandudoch, datgana’r bardd o’r diwedd:

Pen treólho Prydeyn teyrnedd bycheyn, *Pan fydd tywysogion bychain yn difa Prydain,*
gwlad veiboneyn, gwerin ormes, *gwlad o fechgyn, gormes y werin,*
ni wyr namyn Duw, dawn arymhes, *ar wahân i Dduw, sydd â’r dawn i ddarogan, nid oes*
hynt yny ddel gynt i ar aches. *neb yn gwybod eu ffawd hyd nes y daw estroniaid o’r môr.*
(ll. 128–31)

Saif y llinellau hyn allan yn fydryddol: dyma’r unig bennill yn y gerdd ar fesurau’r awdl. Defnyddia’r bardd batrymau odl cyhydedd hir i greu cyferbyniad rhwng ‘Prydeyn’ a’r ddau ymadrodd ‘teyrnedd bycheyn’ a ‘gwlad veiboneyn’. Mae nifer o ‘deyrnoedd’ bach yn ymladd â’i gilydd yma a chyda’i gilydd ffurfiant ‘werin ormes’, gymaint â brenin Lloegr yn gynharach yn y gerdd (ll. 27). Byddai modd dehongli hyn yn feirniadaeth o frenhinoedd bach y Cymry yn gormesu’r bobl gyda’u hymladd diddiwedd a ymhlygir yn enwedig yn llinellau 76–112, ond mae’n bosibl i’r rhwyd gael ei bwrw’n ehangach yma hefyd. Mae cyfeirio at ‘Prydeyn’ yn gadael i’r bardd gynnwys brenhinoedd Lloegr ac arglwyddi, yr amrywiol ysbeilwyr a ddaw i Landudoch, a hefyd hanes Myrddin ei hun yng nghysgod rhyfel rhwng Brythoniaid.³⁶ Felly, yn unol â thraddodiad hir o broffwydoliaethau, mae gormes y mae angen ei gwaredu. Ond ni chynigia’r gerdd obaith am waredigaeth. Ni cheir mab darogan yma: mae’r ‘meiboneyn’ lluosog a grybwyllir yn ormes eu hunain.³⁷

Dim ond Duw a wŷr yr hyn sy’n mynd i ddigwydd (ni all Myrddin rag-weld dyfodol y Cymry yn glir yma) ‘yny ddel gynt i ar aches’ (‘nes bod *gynt* (pobloedd, paganiaid) yn dod o’r môr’). Fel y nodais, mewn rhai cerddi eraill mae dyfodiad estroniaid o’r môr, Llychlwynwyr efallai neu Normaniaid, yn rhan o gyfres bosibl o ddigwyddiadau sy’n arwain at ddyfodiad meibion darogan, felly yn ddamcaniaethol gellid gweld awgrym o obaith fan hyn, ond nid o ystyried y cyd-destun.³⁸ Yn wir fe ymdrecha’r gerdd hon i danseilio’r topos o

obaith yn dod dros y môr. Mae'r bardd wedi defnyddio'r tri englyn diwethaf i gwyno am y dinistr sydd wedi ei achosi gan ysbeilwyr o'r môr ('brithwyr' (ll. 120), 'brithwyr d6 o banaw' (ll. 123)) sy'n golygu nad yw Llandudoch bellach yn fwy na 'gwarwyfa gwydd6och' (ll. 127). Felly rhaid bod y cyfeiriad hwn at y paganiaid yn arwyddocaol: efallai bod y bardd am bwysleisio bod yr ysbeilwyr yn cadw dod ond nid felly gwardigaeth. Torrwyd y drefn.

Chwarae ar Eiriau a Dychan: 'Traul', 'Llithio'

Nid yw'r anobaith mawr yn cau allan elfennau chwareus yn 'Gwasgargerdd': mae'n eu galluogi. Tuedda'r gerdd i aildefnyddio geiriau arwyddocaol i danseilio disgwyliadau. Fe welwn hyn gyda 'gormes' uchod, a ddefnyddir yn ôl y disgwyl i gyfeirio at un o frenhinoedd Lloegr, ond a aildefnyddir i ddisgrifio grŵp llawer ehangach o reolwyr sy'n cynnwys, mae'n debyg, arweinwyr brodorol y Cymry.

Darpara 'traul' enghraifft arall o ddefnyddio gair i greu cysylltiadau annisgwyl. Fe ddigwydd ar wahanol ffurfiau yn y llinellau hyn (myfi piau'r amlygu):

Pan ddy6o coch Normandy i holi Lloegyrwys, *Pan ddaw'r un coch o Normandi i erlyn*
tra6l ddiffwys **treth** a fi, *gwŷr Lloegr, bydd gwariant ofnadwy o dreth,*
(ll. 18–19)

Pan ddy6o y brith cadarn hyd yn ryd Penn karn, *Pan ddaw'r un brycheulyd grymus hyd at ryd*
llifawt gwyr, **tre6lawt** karn: *Pen-carn, bydd yn malu dynion, bydd yn treulio carnau:*
pende6ic Predain penn barn. *arglwydd Prydain fydd pennaeth barn.*
(ll. 22–4)

Byd a 6ydd hep wynt, hep law, *Bydd byd heb wynt, heb law,*
hep ormod eredic, hep **trathre6liaw**; *heb ormod o aredig, heb draul gormodol;*
tir digawn 6n erw i naw. *bydd un llain yn ddigon o dir i naw.*
(ll. 61–3)

Duw Merchyr, dydd kyngorffenn, *Ddydd Mercher, diwrnod cwblhad,*
y **treulhawr** llafynawr ar penn; *treulir llafnau ar bennau;*
(ll. 73–4)

Yn Aber Sor yt 6ydd garw gynghor ar gwyr: *Yn Aber Sôr bydd cynulliad garw'n ymosod ar*
gwedy trin **treulhettor**. *ddynion: ar ôl brwydr byddant yn cael eu difa.*
Glyw Gwynllyw yn 6n escor. *Dewrion Gwynllyw yn amddiffyniad unedig.*
(ll. 76–8)

Pen **tre6lho** Prydeyn teyrnedd bycheyn *Pan fydd tywysogion bychain yn difa Prydain,*
(ll. 128)

Mae'r bardd yn chwarae ar y gair 'traul' trwy'r gerdd, ac er bod y gerdd yn amrywio o ran canolbwynt, mae geiriau a themâu allweddol yn rhoi undod iddi. Yn llinell 19, mae'r traul yn ariannol ac fe'i cysylltir yn uniongyrchol â 'treth'. Thema gyfarwydd ddigon mewn canu darogan yw trethi, a ddarogenir yn aml yng nghyd-destun gormes a dioddefaint.³⁹ Fe welir hyn gyntaf (ac yn dra amlwg) yn 'Armes Prydein Vawr' lle y sonnir am drethi nid llai na phump o weithiau (ll. 21, 72, 78, 84, 86, 123). Crisielir un o brif ergydion y gerdd honno yn y datganiad 'Ef dialawr y treth' ('Telir y pwyth am y dreth' (ll. 123)). Mae trethi hefyd yn ymddangos mewn cerddi proffwydol dienw o Lyfr Coch Hergest ac o lawysgrifau diweddarach.⁴⁰ Yn 'Gwasgargerdd', gellir cysylltu'r treuliau â threthi hanesyddol hefyd, megis y dreth a gododd Gwilym Goch yn 1096.⁴¹

Ond nid trethi mo'r unig draul yn y gerdd hon. Weithiau mae'n fwy corfforol, fel yn llinellau 23, 74 a 77: mae traul ar y byd ac ar gyrff ryfelwyr. Yn llinellau 61–3 sy'n portreadu byd rhyfeddol lle y mae llawer o fwyd ar gael heb fod angen glaw na gwaith caled, nid oes angen 'trathreŷliaw'. Gan fod y bardd yn amrywio ystyr 'traul' gymaint, mae'r amwysedd yn amlwg. A fydd trethi wedi brwydr yn llinell 77, neu ragor o ladd? Sut yn union y mae'r brenhinoedd bach yn 'treulio' Prydain yn llinell 128? Efallai bod awgrym yma nad oes modd gwahanu traul ariannol trethi o'r ansefydlogrwydd a'r traul corfforol y bydd yn ei achosi.⁴²

Fe ymddengys mai brenhinoedd ac arglwyddi seciwlar a gysylltir yn bennaf â 'traul'. Ond chwery y bardd ar eiriau i fwrw ei sen ar fynachod hefyd. Gwelir nifer o enghreifftiau o Fyrddin (a Thaliesin) yn ymosod ar fynachod sy'n haeddu rhagor o astudiaeth.⁴³ Yn yr 'Afalennau' mae cwyno am 'menych geŷawc bwydawc gwydŷs'.⁴⁴ Mynachod barus sy'n cael sylw yn 'Gwasgargerdd' hefyd. Prin bod cyfeiriad at fynach heb fod rhyw fwyd neu ddisgrifiad o hela yn ei ddilyn:

Pan ddyŷo yr gwyr hep wrhyt⁴⁵

ac yn lle y coet cael yr yd,

ymhop hedd gwledd a gyŷyd.

(ll. 64–6)

Pan ddaw'r dynion heb wroldeb

a phan geir ŷd yn lle'r goedwig,

ym mhob annedd cyfyd rhialtwch.

A my disgoganaf ereill:

kryn a llef kwn pen eill Flur;

dyphla yghoet y peyll.

(ll. 95–7)

A myfi sy'n proffwydo pethau eraill:

cyrn a chriau cŷn pen bilain Fflur;

cystudd mawr mewn coetir fydd y blawd mân.

my disgoganaf messyrn ar Deywy,⁴⁶ *myfi sy'n proffwydo llestri yfed o bren masarn ar Deifi,*
a llef kloer wedy kyrn. *a chriau clerigwyr ar ôl cynn.*

(ll. 102–3)

Ymddengys fod cyfeiriadau yma at fynachod Ystrad Fflur yn hela, plannu cnydau a gwledda. Enwir 'Flur' (ll. 96) yn benodol gyda 'pen eill' yn ddisgrifiad sarhaus o'r abad.⁴⁷ Nodir lleoliad yr abaty hefyd ('yn y daw Tei6i o lynne6 adoer' (ll. 99); 'ar Deywy' (ll. 102)) mewn adran sy'n canolbwyntio'n arbennig arno (ll. 95–103). Digwydd ll. 64–6 rywfaint cyn yr adran hon, ac felly mae'r cysylltiad â mynachod Ystrad Fflur ychydig yn llai cadarn, ond mae'r cyfeiriad at wledda a chlirio coed ar gyfer plannu cnydau'n cyd-fynd â'r ymdriniaeth ddiweddarach.⁴⁸ Yn wir, fel y nodi Ben Guy, '[y]n yr Oesoedd Canol, roedd y Sistersiaid yn enwog am glirio tir er mwyn ei droi at ddefnydd amaethyddol'.⁴⁹ Mae astudiaethau o baill yn darparu tystiolaeth bod hyn wedi digwydd yn ardal Ystrad Fflur yn ystod cyfnod y Sistersiaid.⁵⁰

Nid beirniadaeth ansylweddol o fychanod a geir yma: mae'r bardd yn eu cysylltu â bwystfilod yn bwyta cyrff y meirw, wrth chwarae ar y gair 'llithio'.⁵¹ Gwelwn y gair yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anifeiliaid:

llithiawt kwn ar galanedd. (ll. 109) *bydd yn bwydo cŵn ar gyrff.*

llithiawt brain ar ysperi. (ll. 112) *bydd yn bwydo cigfrain ar waywffyn.*⁵²

Ond fe ddefnyddiwyd y gair 'llithio' ychydig yn gynharach hefyd wrth gyfeirio at y mynachod:

Gwenddydd, gwrandaŵ yn ddi6,
yn y daw Tei6i o lynne6 adoer,
llithaur llen 6wch llyfre6.
Gwenddydd, gwrandaŵ'n ddiffuant,
yn y lle y daw Teifi o lynnau iasoer,
darllenir ysgrythur dros lyfrau.

(ll. 98–100)

Dehongliad naturiol o linell 100 fyddai ei gweld yn gyfeiriad at y mynachod yn darllen allan 'lithoedd'. Er hynny, yng nghyd-destun beirniadaeth y gerdd o'u glythineb, ni ellir osgoi'r cysylltiad gyda 'llithio' ('bwydo') chwaith. Felly yr una'r bardd ddwy o brif themâu'r gerdd, sef dinistr bydol a dinistr crefyddol (yn foesol ac yn gorfforol).

Pam y dychenir mynachod fel hyn yma? Yn achos Taliesin, yn 'Preiddeu Annwn' a 'Mabgyfreu Taliesin', mae'r bardd yn brolio ei fod yn gwybod cymaint yn fwy na'r

mynachod (a dynion eraill wrth grefydd) a bod ei ddysg yn rhagori ar eu dysg hwy yn y meysydd y dylent fod yn arbenigo arnynt.⁵³ Mae'r feirniadaeth yn wahanol yn 'Gwasgargerdd': nid yw Myrddin unwaith yn brolio am ei wybodaeth yn y gerdd ac nid oes sôn chwaith am ddiffyg gwybodaeth y mynachod. Yn wir, mae'r feirniadaeth o fynachod ychydig yn wahanol, at ei gilydd, yng nghanu Myrddin mewn cymhariaeth â'r cerddi yn llais Taliesin. Yn 'Gwasgargerdd', 'Yr Afallennau', 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer', 'Y Bedwenni', a'r 'Oianau', fe ddychenir y mynachod am fod yn bechadurus ac yn benodol, yn achos y ddwy gerdd gyntaf, am eu glythineb.⁵⁴ Er mwyn esbonio'r dychan gwahanol hwn, rhaid bwrw'r rhwyd ychydig yn ehangach ac ystyried dychan o fynachod mewn cyd-destun rhyngwladol.

Wrth gyflwyno'r elfen hon, roedd y bardd yn ymwneud â thraddodiad cyfoethog o ddychan ar fynachod, traddodiad a oedd yn dra phoblogaidd yn y ddeuddegfed ganrif gyda nifer o gerddi Lladin (gan gynnwys rhai gan fynachod) yn gwneud hwyl am ben bwydydd bras yr abatai.⁵⁵ Daeth yr ystrydeb o fynachod barus yn dra chyfarwydd, fel y noda Jill Mann:

In the twelfth-century *Speculum Stultorum* of Nigel of Longchamps [...] it is already so much taken for granted as to be revealed in an aside; the monk Fromundus comes to answer a knock slowly, as when he is called to prayer,

Non tamen accelerans, nisi cum pulsatur ad ollam,
Ut solet, ad mensam ventre docente viam⁵⁶

Ond nid aeth yn gyflym, fel y daw
pan drewir y gloch ginio, a'i stumog yn dysgu'r ffordd i'r bwrdd (ll. 881–2)

Sylwer bod hyn hefyd yn wir am 'Gwasgargerdd' (yn wahanol i'r 'Afallennau'): mae'r feirniadaeth o lythineb yn ymhlyg gan fod disgwyl y byddai'r gynulleidfa'n gyfarwydd â'r ystrydeb.

Mae'r cyfeiriad dychanol at 'pen eill Flur' (ll. 96) hefyd yn cyd-weddu â'r hyn a gawn mewn testunau eraill. Cysylltir yr abad â bywyd bonheddig sy'n llawn hela ('kyrn a llefkwn' (ll. 96)), ac mae 'pen' yn pwysleisio ei statws uchel.⁵⁷ Ond eto 'eill' yw hwn, sef deiliad caeth, bilain neu daeog, a'r term sarhaus yn datgelu barn Myrddin amdano.⁵⁸ Mae tebygrwydd trawiadol yma i'r dychanu o fynachod yn *Mirour de l'Homme* gan y bardd John Gower o'r bedwaredd ganrif ar ddeg a ddyfynnir gan Mann. Yma mae'r mynach yn mynd allan i farchogaeth ac yn llenwi ei stumog tra'n tra-arglwyddiaethu dros ei ddeiliaid:

[...] et ensi seignoral
Devient le moygne nyce et vein (ll. 20961–2)⁵⁹

Ac felly mae'r mynach fføl a gwan
yn ymddwyn fel arglwydd.

Fel mewn testunau eraill, nid yw beirniadu mynachod drwg yn ddadl yn erbyn bodolaeth urddau crefyddol yn 'Gwasgargerdd'. Mae'r gerdd yn mynegi cydymdeimlad dwys â Llandudoch yn ogystal â chasineb agored at Ystrad Fflur. A yw hyn yn datgelu rhywbeth am y rheswm dros gyfansoddi'r gerdd? Roedd Llandudoch yn fynachlog hynafol bwysig a ddaeth yn briordy (1115/6) ac wedyn yn abaty (1120) Tironaidd.⁶⁰ Dyma'r unig abaty yng Nghymru a berthynai i'r Tironiaid, urdd asgetaidd yr oedd Abaty Tiron yng Ngogledd Ffrainc yn fam-eglwys iddi. Cythryblus fu ei hanes ac fe gofnodwyd dau ymosodiad arno mewn croniclau, y naill ar yr eglwys gymnar yn 988 a'r llall ar y mynachlog Tironaidd yn 1138, fel yr esbonia Ben Guy.⁶¹ Cyfeirir at ymosodwyr 988 fel *gentiles* ('paganiaid'), ac mae'n debyg bod hyn yn disgrifio'r llychlynwyr a aeth gyda Guðrøðr Haraldsson, brenin yr Ynysydd, i ysbeilio Cymru. Mae'r Cronicleu yn disgrifio'r grŵp hwn yn y cyfnod 987–989 fel cenhedloedd duon, sy'n cyfateb i gyfeiriad llinell 123 at y 'brithwyr dŵ o ōnaw'. Roedd agwedd Gymreig amlycach ar ymosodiad 1138. Fe'i harweiniwyd, fel y nodia Ben Guy, 'gan Anarawd a Chadell, meibion Gruffudd ap Rhys, ac Owain a Chadwaladr, meibion Gruffudd ap Cynan, *cum .xv. nauibus gentilibus plenis* ('gyda phymtheg llong llawn o genhedloedd...').⁶² Nid unwaith yn unig y somnir am ysbeilio'r mynachlog yn y gerdd. Mae'r gerdd yn adeiladu at y ddelwedd o ddinistr Llandudoch trwy ailadrodd y llinell amwys 'Disgogan Tydoch terydd dy' ('mae Tydoch yn proffwyddo tŷ gwenfflam' ll. 113, 116) cyn gwneud y difrod i'r eglwys yn amlycach yn yr englyn dilynol (ll. 119–121) a'r dinistr llawn yn gwbl echblyg yn ll. 125–7.⁶³ O gofio i'r gerdd gael ei chyfansoddi rhwng 1167 a 1191 (yn ôl pob tebyg), buasai ymosodiad 988 yn y gorffennol pell i'r awdur, ond mae'n amlwg ei fod yn hysbys o hyd. Buasai ymosodiad 1138 o fewn cof. Wrth gyfeirio at ysbeilwyr o Ynys Manaw tra'n galaru am y tywysogion bychain sy'n dinistrio Prydain, llwydda'r gerdd i gyfuno'r ddau ymosodiad.⁶⁴ Gwelodd y sawl a arhosai am waredigaeth fod y gyfres o ddyfodiadau ac ymosodiadau yn ei hailadrodd ei hun, a hynny heb ddyfodiad gwaredigaeth. Wrth gofio abaty drylliedig a gobaiith y Brythoniaid yn chwilfriw, gwelodd rhywun fod y traddodiad brudiol Cymraeg yn annigonol. Trwy weithio gyda'r traddodiad hwnnw, ac yn ei erbyn, tafluniodd ddyfodol newydd.

Gellir gweld cyd-destun amlwg ar gyfer y tristwch a'r dinistr sy'n diweddu'r gerdd yn llinellau 113–131 felly. Ond pam y mae'r bardd yn bwrw ei sen ar Ystrad Fflur? Nid oes awgrym bod anghydfod rhwng Llandudoch ac Ystrad Fflur: roedd pellter mawr rhwng eu tiroedd.⁶⁵ Mae'r traddodiad o ddychanu mynachod yn cynnig cyd-destun diwylliannol-lenyddol ac mae'n debygol y byddai abaty pŵerus Ystrad Fflur wedi creu gelynyion wrth reoli cymaint o diroedd, ond ni welir yn y dystiolaeth sydd ar gael inni reswm penodol pam y byddai mynach o Landudoch wedi lladd ar fynachod ac abad Ystrad Fflur yn y deuddegfed ganrif. Tybed nad oedd Llandudoch yn eiddigeddus o lwyddiant y Sistersiaid wrth ddenu nawdd gan y tywysogion? Rhaid i'r cwestiwn hwnnw aros am ateb llawnach mewn ymdriniaeth fanylach â Myrddin a'r mynachod. Ni ellir awgrymu'n gryf mai mynach o Landudoch a greodd 'Gwasgargerdd Fyrddin' gan nad oes tystiolaeth arall bod y mynachlog yn noddi llenyddiaeth Gymraeg yn y cyfnod hwn. Serch hynny, mae'r cydymdeimlad â Llandudoch yn glir ac mae posibilrwydd amlwg mai rhywun â chysylltiad â Llandudoch neu'r cyffiniau a oedd yn gyfrifol am gyfansoddi'r gwaith hwn.

Mae 'Gwasgargerdd Fyrddin' ymysg y darnau hynny o Hengerdd sydd heb dderbyn rhyw lawer o sylw cyn hyn, na chwaith olygiad llawn. Pair hyn dipyn o syndod o ystyried pwysigrwydd y gerdd i astudiaethau Arthuraidd, fel un o'r saith gerdd gynnar Gymraeg a gysylltir yn bennaf â Myrddin. Gwelsom newid mawr yn yr ymwneud ysgolheigaidd â cherddi chwedlonol a proffwydol Taliesin yn dilyn golygiadau mawreddog Marged Haycock ohonynt, ac fe obeithir y bydd golygu cerddi Myrddin yn llawn am y tro cyntaf hefyd yn galluogi ac ysgogi rhagor o feirniadaeth lenyddol. Gall hyn ein harwain ar hyd sawl trywydd annisgwyl wrth ddatgelu haenau o arwyddocâd yn y testun. Gwyddys bod Myrddin yn broffwyd mewn barddoniaeth gynnar Gymraeg, ond pa fath o broffwyd? Wrth leisio anobaith am y dyfodol a throsglwyddo buddugoliaeth y mab darogan Brythonig i Wilym Goch o Normandi, mae'r gerdd hon yn ymwneud mewn ffordd greadigol â thraddodiadau proffwydol. Ymateba i sefyllfa gwympedig y Brythoniaid oll a hefyd sefyllfa lawer mwy penodol yn sgil ymosodiadau, gan estron a Chymro, ar Landudoch. Ni thrafodir cerddi Myrddin yng nghyd-destun dychan fel arfer, ond mae cymharu traddodiadau rhyngwladol o ddychanu mynachod yn gynhyrchiol wrth ddatgelu crefft 'Gwasgargerdd'. O adfer y gerdd i'w phriod le, yn llenyddiaeth, gallwn barhau i'w dadansoddi'n gynhyrchiol a, fesul testun, ysgrifennu hanes llenyddiaeth Gymraeg o'r newydd ac yn llawnach nag erioed o'r blaen.

Ond, a dychwelyd at *causa scribendi*, pam dewis cyfansoddi cerdd lle y mae gobraith mor absennol? Pam ei darllen neu wrando arni? Er mai'r 'Wasgargerdd' yw'r enghraifft

fwyaf eithafol o bosibl, naws brudd sydd i'r cerddi Myrddinaidd cynnar at ei gilydd: barddoniaeth am farwolaeth, colled a dirywiad ydyw, fel cerddi Heledd a Llywarch Hen. Haws, weithiau, cyfiawnhau bodolaeth mathau eraill o destunau: cerddi mawl ar gyfer noddwyr mawr, y câi'r beirdd dâl hael amdanynt, neu farwnadau ysblennydd i ddathlu bywydau'r noddwyr hynny. Nid yw cerddi Myrddin yn dathlu: nid *Praise Above All* mo'u canolbwynt. O ystyried y traddodiad proffwydol Cymraeg, mae'n drawiadol bod beirdd canoloesol yn canu yn llais Myrddin wedi penderfynu peidio â dilyn llwybr 'Armes Prydain Fawr' wrth ddatgan yn orfoleddus ddeol y Saeson o'r ynys unwaith ac am byth. Efallai nad oedd y fath ymffrost hyderus yn gredadwy yn eu byd Normanaidd hwy ac fe ddaethant o hyd i ffyrdd eraill o ddirnad a dod i delerau â'r hyn a ddigwyddodd. Fel y nodais, mae llawer o ysgolheictod yn nodi bod barddoniaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol yn amlygu hyder yn ei model o waredigaeth ynysig: byddai'r Cymry yn cael eu hynys yn ôl. Awgryma 'Gwasgargerdd Fyrddin' fod rhai ohonynt yn amheus.

Ni fydd y sawl sydd wedi colli o reidrwydd yn dymuno clywed honiadau anghredadwy bod popeth yn mynd i fod yn iawn. Mae corff mawr o ymchwil yn dangos ei fod yn gyffredin heddiw i rywun wrando ar gerddoriaeth a genfydd yn drist pan fydd yn teimlo'n drist.⁶⁶ Dangosodd astudiaeth ddiweddar Annemieke van den Tol a Jane Edwards mai'r canfyddiad o gysylltiad yw un o'r prif resymau dros wneud hyn: yn ein cyflwr presennol gallwn uniaethu â'r hyn y mae'r cerddor yn ei gyfleu.⁶⁷ Galarnada Myrddin dros gwmp rhagweledig y Brythoniaid o'u gogoniant i'r dyfodol truenus (presennol y bardd) heb gynnig atebion hawdd. Nid ei rôl fel dyn gwyllt chwedlonol o'r Hen Ogledd sy'n bwysig yma: prin y crybwyllir hynny. Yn hytrach, gall llais Myrddin fynegi galar cyffredin, yn lleol ac yn genedlaethol, a mynnai ysgrifwyr a darllenwyr y Gymru ganoloesol gael clywed hyn.

¹ Noddir Prosiect Myrddin trwy grant o £716,013 gan Gyngor Ymchwil y Dyniaethau a'r Celfyddydau. Hoffwn ddiolch i Ben Guy ac i arfarnwyr di-enw *Llên Cymru* am eu hadborth a'u sylwadau defnyddiol ar ddrafft o'r erthygl hon.

² Egerton G. B. Phillimore, 'A Fragment from Hengwrt MS. No. 202', *Y Cymmrodor*, 7 (1886), 89–154 (t. 116). Er tegwch i Phillimore, mae'r gwaith golygyddol diweddar wedi dangos yn glir bod y testun a welodd yn Llyfr Gwyn Rhydderch (llawysgrif Peniarth 4 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru) yn anghyflawn. Ar yrfa liwgar Phillimore, gw. Ben Guy, 'Egerton Phillimore (1856–1937) and the Study of Welsh Historical Texts', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, cyfres newydd, 21 (2015), 36–50.

³ Peredur I. Lynch, *Proffwydoliaeth a'r Syniad o Genedl* (Bangor: Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor, 2007), tt. 27–8, cymh. t. 29.

⁴ *Ibid.*, t. 41; Margaret Enid Griffiths, *Early Vaticination in Welsh with English Parallels* (Cardiff: University of Wales Press, 1937), tt. 150–1.

⁵ Robin Flower, 'Quidam Scotigena. I. Discipulus Boëthii or Boëthius and the Four Conditions of a Tale', *Ériu*, 8 (1915–6), 150–154.

⁶ Simon Rodway, 'The Where, Who, When and Why of Medieval Welsh Prose Texts: Some Methodological Considerations', *Studia Celtica*, 41 (2007), 47–89.

⁷ Ar y dyddiad, gw. ymhellach Ben Guy, 'Gwasgargerdd Fyrddin' (i ymddangos) (ar gael ar-lein: myrddin.cymru). Dyfynnir y testun a'r aralleiriadau o'r golygiad hwn.

⁸ Gw. Guy, 'Gwasgargerdd'.

⁹ Fel y nodi Ben Guy, dim ond yn 'Canu Owain Cyfeiliog' gan Gynddelw y digwydd cyfeiriad at Landudoch yng ngwaith Beirdd y Tywysogion: Nerys Ann Jones ac Ann Parry Owen (gol.), *Gwaith Cynddelw Brydydd Mawr: I*, Cyfres Beirdd y Tywysogion III (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1991), cerdd 16, ll. 122.

¹⁰ Thomas Jones (cyf.), *Gerallt Gymro: Hanes y Daith trwy Gymru; Disgrifiad o Gymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1938), tt. 61 a 114; James F. Dimock et al. (gol.), *Giraldi Cambrensis Opera*, 8 cyf. (London: Longmans, Green, Reader, and Dyer, 1861–91), VI, tt. 62 a 112.

¹¹ Guy, 'Gwasgargerdd'.

¹² Ceir y testun llawn yn LIGC Peniarth 50 (c. 1445) a Peniarth 26 (c. 1456). Yn Llyfr Gwyn Rhydderch (LIGC Peniarth 4) a Llyfr Coch Hergest (Rhydychen, Coleg yr Iesu 111) ceir testun anghyflawn sy'n gorffen yng nghanol llinell 93 y seiliwyd y rhan fwyaf o ymchwil flaenorol arno.

¹³ Am ymdrechion canoloesol i ddehongli proffwydoliaethau gwleidyddol, gw. e.e. Julia Crick, 'Geoffrey of Monmouth, Prophecy and History', *Journal of Medieval History*, 18 (1992), 357–71; Jean Blacker, 'Where Wace Feared to Tread: Latin Commentaries on Merlin's Prophecies in the Reign of Henry II', *Arthuriana*, 6 (1996), 36–52; Brynley F. Roberts, 'Esboniad Cymraeg ar Broffwydoliaeth Myrddin', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 21 (1966), 277–300; Marjorie Chibnall (gol. a chyf.), *The Ecclesiastical History of Orderic Vitalis. Volume VI. Books XI, XII and XIII* (Oxford: Oxford University Press, 1978), tt. 380–8.

¹⁴ Ar y traddodiad hwn, gw. yn enwedig Marged Haycock, *Prophecies from the Book of Taliesin* (Aberystwyth, 2013); Victoria Flood, *Prophecy, Politics and Place in Medieval England: From Geoffrey of Monmouth to Thomas of Erceldoune* (Cambridge: D. S. Brewer, 2016); Griffiths, *Early Vaticination*.

¹⁵ Cyhoeddodd A.O.H. Jarman nifer sylweddol o astudiaethau ar y traddodiadau hyn, gan gynnwys *The Legend of Merlin* (Cardiff: University of Wales Press, 1960).

¹⁶ Ar Wasawg, gw. Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 91; B. Guy, 'Yr Afallennau': 'Nodiadau Esboniadol' (i ymddangos) (ar gael ar-lein: myrddin.cymru).

¹⁷ Cysylltir y 'Cyfoesi' a'r 'Wasgargerdd' â'i gilydd mewn nifer o lawysgrifau (megis Llyfr Coch Hergest, lle copiwyd y 'Wasgargerdd' yn syth ar ôl y 'Cyfoesi') ac mae cyffelybiaethau rhwng y ddwy broffwydoliaeth o ran ffurf, sy'n cryfhau'r achos dros ystyried y 'Cyfoesi' wrth ddarllen 'Gwasgargerdd Fyrddin'. Trafododd Lawrence Eson leoliad Myrddin 'yn y bedd' yng nghyd-destun yr hyn a wêl yn fotiff Celtaidd ac Indo-Ewropeaidd o ysbrydoliaeth broffwydol yn deillio o gladdedigaeth, ond dyma'r unig enghraifft mewn llenyddiaeth Cymraeg Canol y gwn amdani o broffwydol yn siarad yn y bedd: Lawrence E. Eson, 'Merlin's Last Cry: Ritual Burial and Rebirth of the Poet in Celtic and Norse Tradition', *Zeitschrift für celtische Philologie*, 55 (2006), 181–200.

¹⁸ Ifor Williams (gol.), *Canu Taliesin* (Caerdydd, 1960), t. 3. Ar 'eurdeyrn', gw. J. Lloyd-Jones, *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1931–1963), d.g. 'eurdeyrn'.

¹⁹ Gw. CBT I: 25, ll. 10; CBT V: 11, ll. 13; CBT VI: 3, ll. 20; CBT VI: 14, ll. 52; CBT VII: 2, ll. 3; CBT VII: 36, ll. 5. Defnyddiais goncordans Ann Parry Owen i ddod o hyd i'r rhain: 'Concordans Barddoniaeth Beirdd y Tywysogion' (ar gael ar-lein:

https://www.academia.edu/12504625/Concordans_Barddoniaeth_Beirdd_y_Tywysogion_Concordance_of_the_Poets_of_the_Princes_Poetry).

²⁰ Am ymdriniaeth â thema sofraniaeth dros Brydain yn *Branwen*, gw. Catherine McKenna, 'The Colonization of Myth in *Branwen Ferch Lŷr*', yn Joseph Falaky Nagy (gol.), *Myth in Celtic Literatures*, The Celtic Studies

Association of North America Yearbook 6 (Dublin: Four Courts Press, 2007), tt. 105–119. Mae'n bosibl bod y bardd yn gyfarwydd â chwedl *Branwen* ar ffurf debyg i'r hyn sydd wedi goroesi heddiw ond nid oes modd profi hyn: fe all fod yn tynnu ar draddodiadau a chwedlau cysylltiedig.

²¹ Ifor Williams (gol.), *Pedeir Keinc y Mabinogi* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1930), t. 47.

²² *Ibid.* Cymh. Rachel Bromwich (gol. a chyf.), *Trioedd Ynys Prydein*, ail arg. (Cardiff: University of Wales Press, 1978), tt. 88–9.

²³ Gw. Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 15.

²⁴ David Norman Dumville, 'The Textual History of the Welsh-Latin *Historia Brittonum*' (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caeredin, 1975), tt. 211–7. Ar gael ar-lein: <https://era.ed.ac.uk/handle/1842/8972>.

²⁵ Rebecca Thomas, 'History and Purpose in *Armes Prydein Vawr*', yn Ben Guy a Patrick Wadden (gol.), *Propaganda and Pseudo-history in the Medieval Celtic World: Interrogating a Paradigm* (i ymddangos).

²⁶ Cymh. Flood, *Prophecy*, tt. 37–41; Michael Faletta, 'Colonial Preoccupations in Geoffrey of Monmouth's *De gestis Britonum*', yn Joshua Byron Smith a Georgia Henley (gol.), *A Companion to Geoffrey of Monmouth* (Leiden: Brill, 2020), tt. 317–40 (332–8).

²⁷ Michael D. Reeve a Neil Wright (gol. a chyf.), *Geoffrey of Monmouth: The History of the Kings of Britain* (Woodbridge: Boydell Press, 2007), t. 147, ll. 72.

²⁸ Awgrymaf 'hawlio' fel dehongliad yma ond fe ellid dehongli 'holi' fel 'erlyn' hefyd: gw. GPC d.g. 'holi'.

²⁹ Ifor Williams (gol.), *Armes Prydein o Lyfr Taliesin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1955), t. 7, ll. 194; Thomas, 'History and Purpose'.

³⁰ John K. Bollard, 'Myrddin in Early Welsh Tradition', yn Peter Goodrich (gol.), *The Romance of Merlin: an anthology* (New York: Garland, 1990), tt. 13–54 (46); cf. John K. Bollard, 'The earliest Myrddin poems', yn Ceridwen Lloyd-Morgan ac Erich Poppe (gol.), *Arthur in the Celtic languages: the Arthurian legend in Celtic literatures and traditions* (Cardiff: University of Wales Press, 2019), tt. 35–50 (t. 41).

³¹ Ar 'y brith cadarn', gw. Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 22.

³² Ar arwyddocâd 'tra gwelgi', gw. Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 27

³³ Noder bod y 'gwyn gwan', y 'brith cadarn' a'r 'gwr gwrthryn' oll yn cael eu cysylltu â cheffylau hefyd (10, 23, 29).

³⁴ Ar hyn, gw. George Molyneux, *The Formation of the English Kingdom in the Tenth Century* (Oxford: Oxford University Press, 2015), t. 210; Martin Brett a Joseph A. Gribbin, *English Episcopal Acta 28: Canterbury 1070–1136* (Oxford: Oxford University Press for the British Academy, 2004), t. 48; cymh. Austin P. Bennett, *The Jurisdiction of the Archbishop of Canterbury: An Historico-Juridical Study* (Romae: Universitas Gregoriana, 1958), tt. 157–165.

³⁵ Gw. Datguddiad 20.2; Lynch, *Proffwydoliaeth*, t. 21.

³⁶ Ar yr ymosodiadau ar Landudoch, gw. isod t. ???.

³⁷ Cymh. y defnydd difriol o 'mebionein' yn ll. 42, lle yr ymhlygir eu bod yn blant anghyfreithlon i laethwagedd.

³⁸ Lynch, *Proffwydoliaeth*, t. 41; Griffiths, *Early Vaticination*, tt. 150–1.

³⁹ Griffiths, *Early Vaticination*, tt. 131, 135, 184.

⁴⁰ Williams, *Armes*; M. B. Jenkins, *Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages* (traethawd PhD heb ei gyhoeddi, Prifysgol Caer-grawnt, 1990), tt. 118 a 172; Griffiths, *Early Vaticination*, t. 184.

⁴¹ Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 19.

⁴² Cymh. y gerdd ddiweddarach 'Crist Iesu am gu am gyddydd' a ddyfynnir gan Enid Griffiths: 'rhuddwaew am drethau a fydd/ ag am y trethau i treithir y celwydd' (*Early Vaticination*, t. 184).

⁴³ Guy, 'Afallennau'; 'Oianau Myrddin', ll. 82 yn A. O. H. Jarman (gol.) *Llyfr Du Caerfyrddin* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1982), cerdd 17; 'Y Bedwenni', ll. 13 yn Jarman, *Llyfr Du Caerfyrddin*, cerdd 15; Ben Guy, gol., 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer' (i ymddangos) (ar gael ar-lein: myrddin.cymru), ll. 420–2; 'Preiddeu Annwn', ll. 49–58 yn Marged Haycock (gol.), *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, ail arg. (Aberystwyth: CMCS, 2015), cerdd 18; 'Mabgyfreu Taliesin', ll. 3–10 yn Haycock, *Legendary Poems*, cerdd 6.

⁴⁴ Guy, 'Afallennau'.

⁴⁵ Sylwer bod y rhain yn cael eu cyflwyno gan yr un ymadrodd 'pan ddy60' a ddefnyddir ar gyfer y brenhinoedd Normanaidd gormesol: gw. uchod t. ???.

⁴⁶ Defnyddiwyd masarn ar gyfer llestri yfed ac felly fe all y llinell hon gyfeirio at lestri yfed o bren masarn a oedd gan fynachod Ystrad Fflur: Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 102.

⁴⁷ Mae 'pen eill' yn fwsair sy'n cyfuno cyfeiriad difriol at yr abad fel 'bilain' â disgirifiad gwawdlyd o donsyr y mynachod. Diolchi'r arfarnwyr di-enw am dynnu fy sylw at hyn.

⁴⁸ Mae llinellau 37–63, a ddaw cyn hyn, yn gyson â'r feirniadaeth echblyg o Ystrad Fflur wrth broffwydo gwae gyda newidiadau cymdeithasol a chamweddau eglwysig. Mae'r ymdriniaeth â chrefydd yn y gerdd yn dra negyddol: dim ond yn ei llinell gynderfynol (ll. 130) yr enwir 'Duw' sy'n sefyll yn wrthbwynt i wŷr wrth grefydd yma.

-
- ⁴⁹ Ar glirio coed i dyfu cnydau, gw. Guy, 'Gwasgargerdd' o dan 'Nodiadau Esboniadol', ll. 97; cymh. ll. 65; David H. Williams, *White Monks in Gwent and the Border* (Pontypool: Hughes and Son, 1976), tt. 8–9. Gall fod ll. 70 ('pan bo amsych gwydd, gwanhwynn a gi') yn gyfeiriad eironig at goed sy'n sych yn y gwanwyn am iddynt gael eu torri a'u cadw. Mae ll. 67–9 hefyd yn awgrymu bod dyn diurddas (ai abad Ystrad Fflur?) wedi plannu yd mewn mynydd-dir anaddas. (Fe ddatgelir ychydig yn ddiweddarach mai 'gwyllon mynydd' (ll. 92) a drosglwyddodd y broffwydoliaeth am Ystrad Fflur i Fyrddin.)
- ⁵⁰ D. H. Williams, *The Cistercians in the Early Middle Ages* (Leominster: Gracewing 1998), t. 331; J. Turner, 'The Anthropogenic Factor in Vegetational History. I. Tregaron and Whixall Mosses', *The New Phytologist*, 63 (1964), 73–90 (82–3); P. D. Moore ac E. H. Chater, 'The Changing Vegetation of West-Central Wales in the Light of Human History', *Journal of Ecology*, 57 (1969), 361–379 (367, 374).
- ⁵¹ Cf. y gymhariaeth o fynachod â chŵn a bleiddiaid yn 'Preiddeu Annwn', ll. 49 a 53 (Haycock, *Legendary Poems*, tt. 437–8).
- ⁵² Ymddengys mai maes y gad yng Ngharrog sy'n gwneud y llithio yma.
- ⁵³ Cymh. Haycock, *Legendary Poems*, tt. 11, 50, 240, 433.
- ⁵⁴ Noder y cyfeiriad at 'bvid' yn y llinell cyn 'a mineich in vynich in varchogion' yn 'Y Bedwenni' hefyd (ll. 12–13).
- ⁵⁵ Ar ddychan o lythineb mynachod, gw. Sita Steckel, 'Satirical Depictions of Monastic Life', yn Alison I. Beach ac Isabelle Cochemin (gol.), *The Cambridge History of Medieval Monasticism in the Latin West: Volumes 1 and 2* (Cambridge: Cambridge University Press, 2020), tt. 1154–70 (1158–60); Jill Mann, *Chaucer and Medieval Estates Satire* (London, 1973), tt. 17–35. Golygir nifer o'r testunau yn Thomas Wright (gol.), *The Anglo-Latin Satirical Poets and Epigrammatists of the Twelfth Century*, 2 gyf. (London: Longman & Co., 1872). Am gatalog disgrifiadol o gerddi o Loegr (llawer ohonynt yn ddychanol ond nid pob un) sy'n ymdrin â mynachod yn y cyfnod tua 1150–1350, gw. Rudolf Schneider, *Der Mönch in der englischen Dichtung bis auf Lewis's Monk 1795* (Leipzig: Mayer & Müller, 1928), tt. 14–43.
- ⁵⁶ Mann, *Chaucer*, t. 18; Jill Mann (gol. a chyf.), *Nigel of Longchamp: Speculum Stultorum* (Oxford: Oxford University Press, 2023), tt. 96–7.
- ⁵⁷ Cymh. y cyfeiriadau at hela ac adeiladau yn ll. 49–50 addilynir gan broffwydoliaethau am dorri llwon a ffydd wan mewn cyd-destun eglwysig (ll. 52–6).
- ⁵⁸ *Geiriadur Prifysgol Cymru* d.g. 'aillt, aill'. Perthnasol o bosibl hefyd yw'r datganiad 'yd wnao taeawc i les' yn ll. 44.
- ⁵⁹ Mann, *Chaucer*, t. 34; G. C. Macaulay, gol., *The Complete Works of John Gower: The French Works* (Oxford: Clarendon Press, 1899), t. 236.
- ⁶⁰ Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 121. Ceir hanes Llandudoch yn llawnaf gan Emily M. Pritchard, *History of St Dogmaels Abbey* (London: Blades, East & Blades, 1907), sy'n cynnwys cyfieithiadau o nifer o ddogfennau cynnar sy'n crybwyll yr abat, ond mae angen diweddarau elfennau o'r gwaith bellach. Cymh. hefyd John B. Hilling, *Cilgerran Castle, St Dogmael's Abbey, Pentre Ifan burial chamber, Carreg Coetan Arthur burial chamber*, ail arg. (Cardiff: Cadw, 2000); C. A. Raleigh Radford, *St. Dogmael's Abbey, Pembrokeshire* (London: HMSO, 1962); David Knowles, C. N. L. Brooke, Vera C. M. London, *The Heads of Religious Houses: England & Wales, I. 940–1216*, ail arg. (Cambridge: Cambridge University Press, 2001), tt. 107, 264.
- ⁶¹ Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 123 (gw. yno am gyfeiriadau pellach.)
- ⁶² Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 123.
- ⁶³ Sylwer mai Tydoch sy'n proffwydo yn ll. 113 a 116. Mae'r defnydd o wahanol leisiau yn y proffwydoliaethau yn haeddu rhagor o sylw. Os bydd proffwydoliaeth yn gywir, rhesymol tybio y byddai sawl proffwyd yn cael gweld yr un digwyddiadau trwy gymorth Duw. Felly nid annisgwyl fyddai clywed gwahanol leisiau'n rhannu'r un broffwydoliaeth, megis Tydoch yma.
- ⁶⁴ Cf. Guy, 'Gwasgargerdd': 'Nodiadau Esboniadol', ll. 123.
- ⁶⁵ David H. Williams, *Atlas of Cistercian Lands in Wales* (Cardiff: University of Wales Press, 1990), t. 90.
- ⁶⁶ Gw. Annemieke J. M. Van den Tol a Jane Edwards, 'Exploring a rationale for choosing to listen to sad music when feeling sad', *Psychology of Music*, 41 (2013), 440–65 a'r cyfeiriadau yno.
- ⁶⁷ Van den Tol ac Edwards, 'Exploring'.